# Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i lenwi ffurflen CIS304, 'Cynllun y Diwydiant Adeiladu – Cofrestru partneriaeth'.

## Cofrestru ar-lein

Gallwch gofrestru ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) a gwneud cais am daliad ar ôl didynnu treth ar-lein. Os byddai'n well gennych wneud hyn, ewch i **www.gov.uk/what-you-must-do-as-a-cis-subcontractor/how-to-register**. Ni allwch gofrestru ar-lein ar gyfer taliad gros.

## Cofrestru dros y ffôn

Gallwch hefyd gofrestru a gwneud cais am daliad gros drwy ffonio'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**.

## Cofrestru ac amodau taliad gros

Er mwyn gwneud cais i gofrestru o dan y CIS newydd a sicrhau y caiff taliadau gan gontractwyr eu talu i'r bartneriaeth yn llawn, mae'n rhaid i'ch busnes fodloni'r amodau canlynol:

- mae'n cael ei redeg yn y DU gyda chyfrif banc
- mae ganddo drosiant net o £30,000 bob blwyddyn ar gyfer pob partner, neu o leiaf £100,000
- mae'r bartneriaeth a'r partneriaid wedi cydymffurfio â rhwymedigaethau treth penodol

Gelwir y profion hyn yn brofion busnes, trosiant a chydymffurfio, a chânt eu hegluro isod.

## Prawf busnes

I basio'r prawf hwn:

- mae'n rhaid i'ch busnes allu dangos i ni ei fod yn cynnal gwaith adeiladu yn y DU neu'n darparu llafur ar gyfer gwaith o'r fath, ac
- mae'n rhaid iddo gael ei redeg drwy gyfrif banc

## Prawf trosiant

Mae'r prawf hwn yn seiliedig ar 'drosiant net'. Dyma'ch incwm gros o waith adeiladu, ac eithrio TAW a chost deunyddiau. Mae'r prawf yn ystyried trosiant net yn ystod y 12 mis cyn eich cais am daliad gros.

Gall partneriaethau sefyll y prawf safonol neu'r prawf amgen. Er mwyn pasio'r prawf safonol, mae'n rhaid i'r bartneriaeth allu dangos trosiant adeiladu net o £30,000 o leiaf ar gyfer pob partner, a hynny yn ystod y cyfnod o 12 mis cyn dyddiad y cais am daliad gros.

## Cysylltiadau

**Canolfan Cyswllt Cymraeg**
Ffoniwch **0300 200 1900**

**Llinell Archebu y CIS**
Ffoniwch **0300 200 3210**

**Y we**
**www.gov.uk/cis**

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn print bras. Os hoffech gopi, cysylltwch â'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM.

Ffoniwch **0300 200 1900** i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Er mwyn pasio'r prawf amgen, mae'n rhaid i'r bartneriaeth allu dangos trosiant net o £100,000 o leiaf yn ystod yr un cyfnod.

Os nad yw trosiant adeiladu net y bartneriaeth yn ddigon i basio'r prawf trosiant, ond mae cyfanswm ei throsiant o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at y cais yn fwy na'r trothwy, mae'n dal i fod yn bosibl i chi basio'r prawf. Gweler tudalen 4 am ragor o wybodaeth.

## Prawf cydymffurfio

Er mwyn pasio'r prawf cydymffurfio, mae'n rhaid i chi ac unrhyw bartneriaid busnes fod wedi gwneud pob un o'r canlynol yn ystod y 12 mis hyd at ddyddiad y cais am daliad gros:

- llenwi a chyflwyno pob Ffurflen Dreth Hunanasesiad erbyn y dyddiad cau
- llenwi a chyflwyno'r datganiadau misol sydd gennych chi fel contractwr yn y diwydiant adeiladu erbyn y dyddiad cau
- talu unrhyw dreth TWE a chyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n daladwy gennych chi fel cyflogwr erbyn y dyddiadau cau
- talu unrhyw ddidyniadau sy'n daladwy gennych chi fel contractwr yn y diwydiant adeiladu erbyn y dyddiadau cau

Wrth ystyried a ydych wedi pasio'r prawf cydymffurfio, byddwn yn anwybyddu rhai, neu hyd yn oed pob un, o'r agweddau canlynol yn ystod yr un cyfnod o 12 mis:

- 3 achos o gyflwyno datganiadau misol y contractwr yn hwyr – hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- 3 taliad hwyr o ddidyniadau TWE/cyfraniadau Yswiriant Gwladol/CIS – hyd at 14 diwrnod yn hwyr
- unrhyw Ffurflen Dreth Hunanasesiad hwyr – hyd at 28 diwrnod yn hwyr

Os nad yw eich cais am gael eich talu'n gros yn llwyddiannus, caiff eich taliadau CIS eu talu ar ôl didynnu treth tuag at eich bil treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Byddwn yn ysgrifennu atoch gan roi'r union resymau pam nad ydych wedi bod yn llwyddiannus (yn amodol ar reolau cyfrinachedd), ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut y gallwch apelio.

## Help ac arweiniad

# Llenwi’r ffurflen gofrestru

Dylai'r bartneriaeth benderfynu pa bartner fydd yn cael ei adnabod fel y partner sy'n cofrestru, gan mai cyfrifoldeb y partner sy'n cofrestru fydd llenwi'r ffurflen gofrestru. Bydd yn rhaid i'r bartneriaeth a'r partner cofrestru gael eu cofrestru ar gyfer Hunanasesiad.

Bydd y nodiadau arweiniad hyn yn eich helpu i lenwi'r ffurflen gofrestru. Nid ydynt yn cynnwys nodiadau ar gyfer pob blwch – dim ond nodiadau ar gyfer y blychau hynny a allai beri problemau i chi, neu'r rhai lle y bydd rhagor o wybodaeth o ddefnydd i chi. Rydym yn hapus i helpu os hoffech help gydag unrhyw beth. Ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**.

Dylai unrhyw Ymddiriedolaethau sydd am gofrestru ar gyfer y CIS lenwi'r ffurflen hon a ffonio'r Ganolfan Cysywllt Cymraeg am arweiniad.

## Manylion y partner sy'n cofrestru

4

**Rhif Yswiriant Gwladol y partner sy'n cofrestru, os oes gennych un**
Gallwch ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol ar:

- eich bil o'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 neu'r debyd uniongyrchol gyda'ch banc
- unrhyw ddogfen neu lythyr oddi wrth y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Asiantaeth Budd-daliadau neu'r Adran Gwaith a Phensiynau
- unrhyw ohebiaeth oddi wrth Gyllid a Thollau EM sy'n dangos eich rhif Yswiriant Gwladol

Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol, bydd angen i chi gysylltu â'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar 0300 200 1900 i gael cyngor ar yr hyn i'w wneud.

## Manylion y bartneriaeth

10

**Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**
Nodwch gyfeirnod y bartneriaeth a roddwyd i chi at ddibenion Hunanasesiad adeg cofrestru'r bartneriaeth. Mae hwn i'w weld hefyd ar eich Ffurflen Dreth, Datganiadau, neu hysbysiadau Taliad ar Gyfrif. Os nad oes gan y bartneriaeth na'r partner sy'n cofrestru UTR, ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900** i gael rhagor o wybodaeth.

## Prawf trosiant

32

Er mwyn gweld a yw'r cwmni'n gymwys ar gyfer statws taliad gros, mae angen i chi roi gwybod i ni sawl partner sydd yn y bartneriaeth. Dylech nodi'r nifer mwyaf a oedd yn y bartneriaeth yn ystod y cyfnod o 12 mis hyd at ddyddiad y cais hwn. Pan fo aelod o bartneriaeth yn gwmni yn ei enw ei hun, bydd yn rhaid i drothwy trosiant y cwmni fod yn seiliedig ar nifer y cyfarwyddwyr a'r cyfranddalwyr os yw'r cwmni'n agos.

Os ydych yn Ymddiriedolaeth, dylech nodi manylion ymddiriedolwyr yn y blwch 'Manylion y partner arall / partneriaid eraill' ar dudalen 3 a nifer yr ymddiriedolwyr ym mlwch 32.

Byddwn yn cynnal gwiriadau a gallwn wrthod cais os ydym o'r farn bod nifer y partneriaid wedi'i danddatgan. Efallai y bydd cosb yn cael ei chodi arnoch.

33

**Os yw eich trosiant adeiladu net yn ystod y 12 mis diwethaf yn hafal i £30,000 neu'n fwy x nifer y partneriaid a ddangosir ym mlwch 32, neu'n hafal i £100,000 neu'n fwy, llenwch y blychau.**

**A. Swm gros y taliadau (heb gynnwys TAW)**
I gyfrifo'r swm hwn, adiwch yr holl incwm yr ydych wedi'i gael o waith adeiladu, gan gynnwys cost y deunyddiau yr ydych wedi'u cyflenwi yn y cyfnod.
Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae incwm adeiladu yn cynnwys arian gan gleient am waith adeiladu, er enghraifft:

- gosod
- atgyweirio
- plymio
- gwaith trydanol
- paentio ac addurno
- dymchwel

**B. Cost deunyddiau (heb gynnwys TAW)**
I gyfrifo'r gost, adiwch yr holl symiau yr ydych wedi'u gwario ar ddeunyddiau a ddefnyddiwyd gennych yn ystod y cyfnod. Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae 'deunyddiau' yn golygu (heb gynnwys TAW):

- cost tir, deunyddiau adeiladu a defnyddiau traul
- cost tanwydd neu beiriannau
- y swm gwirioneddol a wariwyd gennych ar logi peiriannau

**Peidiwch â chynnwys:**
- treuliau teithio
- tanwydd ar gyfer teithio
- cost prynu sgaffaldau os yw eich busnes yn isgontractwr sgaffaldau

**C. Trosiant adeiladu net (A llai B)**
Nodwch fanylion yn ôl yr angen.

**Enghraifft – ar gyfer partneriaeth sydd â 3 phartner**

| | | |
|---|---|---|
| Swm gros y taliad (heb gynnwys TAW) | £ | 120,000.00 |
| Llai cost deunyddiau (heb gynnwys TAW) | £ | 25,000.00 |
| Trosiant adeiladu net | £ | 95,000.00 |
| Nifer y partneriaid 3 x £30,000 | **£** | **90,000.00** |

Mae'r trosiant adeiladu net yn fwy na'r terfyn statudol.
Mae'r bartneriaeth yn pasio'r prawf trosiant.

Fel rhan o'r prawf trosiant, mae'n rhaid i chi allu cyflwyno tystiolaeth er mwyn dangos sut y gwnaethoch gyfrifo'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn y prawf. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod wedi cael trosiant adeiladu net o £30,000 o leiaf x nifer y partneriaid, neu £100,000 yn ystod cyfnod y cais.

Os nad yw eich busnes yn ymwneud yn bennaf â gweithrediadau adeiladu, ac nad yw eich trosiant adeiladu net yn hafal i £30,000 neu'n fwy x nifer y partneriaid, neu £100,000, ond mae cyfanswm trosiant y busnes o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at ddyddiad y cais yn fwy na'r trothwy, mae'n dal i fod yn bosibl i chi wneud cais am daliad gros. Nodwch fanylion trosiant gros y bartneriaeth ynghyd â swm y trosiant adeiladu ar ddalen o bapur ar wahân. Hefyd, bydd angen i chi roi enwau a chyfeiriadau'r contractwyr yr ydych wedi gweithio iddynt, gwerth pob contract a'r dyddiad y cytunwyd ar y contract.

Rhaid i dystiolaeth ddangos, ar gyfer y cyfnod yr ydych wedi'i ddefnyddio:

- dyddiadau y daeth y taliadau i law, **a**
- swm gros pob taliad a ddaeth i law fel rhan o'r CIS
- taliadau gros llai TAW ar gyfer unrhyw waith preifat, **a**
- cost deunyddiau (llai TAW) a ddefnyddiwyd

Codir cosbau am wneud ceisiadau ffug. Os ydych yn rhoi gwybodaeth ffug, ni fydd statws taliadau gros yn cael ei roi i chi a gellir codi cosb arnoch o hyd at £3,000.

**Sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth**
Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys at ddibenion asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a dod o hyd i droseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ddod o hyd i droseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk** a rhoi '*Data Protection Act*' yn y blwch chwilio.